Archwiliad o Gyfrifon 2012-13

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Adroddiad er Budd y Cyhoedd

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 144A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod neu unrhyw berson arall yn unigol nac unrhyw drydydd parti.

Roedd tîm PWC a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys Lynn Pamment ac Ian Davies.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ**

# Cynnwys

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i bennu cyflog prif swyddogion. O ganlyniad i fethiannau o'r fath, mae'r Cyngor, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r broses hon ar gyfer pennu cyflogau.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Cefndir | 7 |
| Roedd y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff yn anghyfreithlon | 9 |
| Ceir gwendidau yng ngweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor | 10 |
| Dylai'r gweithdrefnau ar gyfer cyfarfod cyntaf pwyllgor newydd fod wedi bod yn gadarnach | 11 |
| Nid oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ddigon eglur mewn mannau | 11 |
| Roedd cofnodion y cyfarfod yn annigonol | 12 |
| Y camau nesaf | 12 |
| Diolchiadau | 13 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Cyhoeddir y ddogfen hon er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried p'un a ddylwn, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn i'r corff archwiliedig ei ystyried neu er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd ato. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) i bennu cyflog prif swyddogion. O ganlyniad i fethiannau o'r fath, mae'r Cyngor, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r broses hon ar gyfer pennu cyflogau. Credaf ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau o fewn y Cyngor. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor egluro'r camau pwysig a gymerwyd ganddo i wella trefniadau ac i leihau'r risg y caiff methiannau llywodraethu o'r fath eu hailadrodd gymaint â phosibl.

**2.** Ddiwedd 2012, dechreuais bryderu am y prosesau a fabwysiadwyd gan y Cyngor i bennu cyflog ei brif swyddogion. Atgyfnerthwyd y pryder hwn gan ohebiaeth a gefais gan gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn rhinwedd fy swyddogaeth fel archwilydd statudol y Cyngor. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys materion llywodraethu a gonestrwydd. Penderfynais fod sawl un o'r materion a godwyd yn berthnasol i'm cylch gwaith statudol ac y dylid ymchwilio iddynt.

**3.** Fel yr archwilydd penodedig fy nghyfrifoldeb yw hi i benderfynnu a yw unrhyw eitem cyfrif yn 'groes i'r gyfraith' cyn arfer disgresiwn ar p'un ai i wneud cais i'r llys am ddatganiad i'r perwyl hwnnw. Fel rhan o'm hymchwiliad archwilio, ceisiais ddod i gasgliad o ran pa un a oedd y Cyngor wedi pennu lefelau cyflog prif swyddogion mewn ffordd gyfreithlon. Deuthum i'r casgliad fod penderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff (y Pwyllgor) ar 5 Medi 2012 i gymeradwyo'r strwythur cyflog argymelledig a nodwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor hwnnw yn anghyfreithlon.

**4.** Roedd y casgliad hwn yn seiliedig ar nifer o faterion. Mae a wnelo'r mater cyntaf â'r ffordd y cafodd y cyfarfod ei hysbysebu. Deuthum i'r casgliad nad hysbysebwyd cyfarfod y Pwyllgor yn briodol yn unol ag Adrannau 100A, 100B a 100E o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf 1972).

**5.** Mae Adran 100A o Ddeddf 1972 (fel y'i cymhwysir i bwyllgorau gan Adran 100E o Ddeddf 1972) yn ei gwneud yn ofynnol i amser a lleoliad cyfarfodydd pwyllgorau gael eu hysbysebu'n gyhoeddus. Ni wnaed hyn, yn groes i Adran 100A.

**6.** Mae Adran 100B o Ddeddf 1972 (fel y'i cymhwysir gan Adran 100E o Ddeddf 1972) yn ei gwneud yn ofynnol:

- sicrhau bod agenda ac adroddiadau'r cyfarfod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod;
- y gellir cadw adroddiadau yn ôl os bydd y swyddog priodol (y Swyddog Monitro fel arfer) o'r farn na fyddai ystyried yr eitem o fudd i'r cyhoedd.

**7.** Nid oedd agenda'r cyfarfod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn groes i Adran 100B o Ddeddf 1972.

**8.** Rydym wedi cadarnhau y cadwyd adroddiadau yn ôl gan fod y Swyddog Monitro wedi penderfynu eu bod yn eitemau eithriedig. Mae'r ffaith syml nad hysbysebwyd y cyfarfod yn ddigon i mi ddod i'r casgliad bod y penderfyniad yn anghyfreithlon.

**9.** Yn ogystal â'm pryder o ran hysbysebu'r cyfarfod, mae gennyf bryderon hefyd am yr agweddau canlynol ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2012:

- Roedd rhai swyddogion penodol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y byddai'r penderfyniad wedi bod o fudd iddynt (ac yr oedd y penderfyniad o fudd iddynt) yn bresennol drwy gydol y cyfarfod i gymeradwyo'r codiadau cyflog. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant ac ni adawodd y swyddogion hyn yr ystafell tra y gwnaed y penderfyniad. O ganlyniad, roeddent yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.
- Y Prif Weithredwr, yr oedd y penderfyniad a wnaed o fudd uniongyrchol iddo ac a roddodd gyngor ar fater a oedd o ddiddordeb ariannol iddo, oedd awdur yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.
- Nid oedd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr yn ystyried yr amrywiaeth llawn o opsiynau a nodwyd gan Grŵp Hay, fel y nodwyd yn yr atodiad i'r adroddiad. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth fanwl a phenodol i'r opsiynau hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ychwaith.

**10.** Yn fy marn i, mae'r materion ychwanegol hyn ynddynt eu hunain yn golygu bod y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor yn anghyfreithlon.

**11.** Mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 17 Ionawr 2013, pleidleisiodd y Cyngor i ddiddymu'r Pwyllgor ac i gadw penderfyniadau ar gyflog prif swyddogion fel penderfyniadau i'r Cyngor llawn yn y dyfodol. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol allanol, pleidleisiwyd hefyd yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor i ddiddymu penderfyniad y Pwyllgor ac i gymeradwyo cytundeb cyfaddawd gyda'r prif swyddogion. O ganlyniad i'r cam gweithredu hwn, gwnaed penderfyniad newydd mewn perthynas â chyflog y prif swyddogion. O ganlyniad, rwyf wedi penderfynu peidio â gwneud cais i'r llys am ddatganiad.

**12.** Er gwaethaf y cam gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor ar 17 Ionawr 2013, rwyf o'r farn bod gwersi i'w dysgu gan y Cyngor, o ran y prosesau a ddilynwyd wrth i'r Pwyllgor wneud y penderfyniad gwreiddiol, a nodir yn yr adroddiad hwn. Ar ddau achlysur blaenorol (2010 a 2012) mae’r archwilwyr wedi adrodd i'r Cyngor bryderon ynglŷn â'r angen am brosesau priodol i lywio penderfyniadau.

**13.** Mae swyddogion ac aelodau wedi cydweithredu'n llawn â'm hymchwiliad archwilio ac wedi dweud wrthyf eu bod yn derbyn bod gwersi i'w dysgu.

# Argymhellion

**Hysbysebu cyfarfodydd**

A1 Dylai'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau ar gyfer hysbysebu cyfarfodydd. Dylid cyflwyno rheolaethau i liniaru'r risg y caiff unrhyw wybodaeth ei hepgor. Er enghraifft, gallai swyddog sy'n annibynnol ar y swyddog sy'n paratoi'r hysbysebion adolygu'r hysbysebion hynny er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw wybodaeth a hepgorwyd.

**Gwrthdaro buddiannau**

A2 Dylid llunio canllawiau clir a'u cynnwys yng nghylch gorchwyl pob fforwm sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor o ran y gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion lle y gallai buddiant ariannol neu fuddiant personol yng nghanlyniad unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud ddylanwadu ar aelodau, neu'r rheini sy'n bresennol mewn fforymau o'r fath. Yn arbennig, dylent bwysleisio na ddylai unigolion o'r fath gymryd rhan yn y broses honno ac:

- y dylent ddatgan buddiant yn y mater;
- y dylent adael y cyfarfod pan gaiff y mater ei drafod mewn unrhyw ffordd;
- na ddylent fod yn llwyr gyfrifol am wneud argymhellion mewn perthynas â'r mater, pa un a fyddant yn bresennol ai peidio.

**Gweithdrefnau ar gyfer pwyllgorau newydd**

A3 Pan gaiff pwyllgorau newydd neu gyrff eraill newydd sy'n gwneud penderfyniadau eu sefydlu gan y Cyngor, dylid llunio cylch gorchwyl clir yn nodi pwerau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau'r corff. Dylai'r pwyllgor eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod ei gyfarfod cyntaf. Dylid hefyd hyfforddi aelodau o ran gofynion y pwyllgor cyn ei gyfarfod cychwynnol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y Cylch Gorchwyl.

**Cofnodion cyfarfodydd**

A4 Dylai cofnodion cyfarfodydd fod yn ddigon manwl i roi gwybodaeth am y materion a drafodwyd. Dim ond i ymdrin ag unrhyw eitemau eithriedig y dylid gwneud unrhyw waith golygu. Ar gyfer materion sensitif, dylai cofnod y cyfarfod gynnwys crynodeb o unrhyw bleidlais a gymerwyd neu nodi a yw'r bleidlais yn unfrydol, er mwyn i'r aelodau allu cytuno â chywirdeb y cofnodion cyn eu cymeradwyo.

**Eglurder a chyflawnder adroddiadau i bwyllgorau**

A5 Lle y gwneir gwaith adolygu, naill ai gan gorff allanol neu'n fewnol, i ategu adroddiad i bwyllgor neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau, dylai'r adroddiad cysylltiedig ymdrin yn benodol â'r materion a godwyd fel rhan o'r gwaith adolygu.

# Adroddiad manwl

## Cefndir

**14.** Yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin 2012, ystyriodd y Cyngor adroddiad gan ei Brif Weithredwr a oedd yn cynnwys dau gynnig: cytuno ar Bolisi Cyflogau i'w gyhoeddi; a sefydlu pwyllgor dirprwyedig i ymdrin â threfniadau cyflog a chydnabyddiaeth y Prif Weithredwr, y cyfarwyddwyr a'r penaethiaid gwasanaeth. Cytunwyd ar y ddau gynnig hyn a sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff. Roedd y Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys ac yn cynnwys pump aelod profiadol, yr oedd pob un ohonynt, neu y bu pob un ohonynt, yn aelod o'r Cabinet.

**15.** Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol y Pwyllgor ar 5 Medi 2012. Ynghyd ag ethol Cadeirydd, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Weithredwr, a oedd yn gofyn am:

- gymeradwyaeth ar gyfer strwythur bandio wedi'i ddiweddaru ar gyfer prif swyddogion yr oedd manylion amdano yn yr adroddiad ym mharagraff 4.12;
- cymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Cyflogau Uwch Staff, a oedd yn pennu cyflog prif swyddogion, ac eithrio'r rheini ym Mand A, ar 50ain canradd y meincnod a bennwyd gan Grŵp Hay, a'r rheini ym Mand A ar y 75ain canradd, yn weithredol o 1 Awst 2012.

**16.** Nododd yr adroddiad fod angen y cymeradwyaethau er mwyn sicrhau bod Tîm Prif Swyddogion y Cyngor yn meddu ar y bobl briodol a'r strwythur priodol i gyflawni yn erbyn heriau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Roedd perygl hefyd y câi prif swyddogion cymwys a medrus eu colli o ganlyniad i'r trefniadau cyflog cyfredol a oedd, yn ôl yr adroddiad, yn anghystadleuol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y ddau argymhelliad yn adroddiad y Prif Weithredwr.

**17.** Noda cofnodion y cyfarfod fod aelodau'r Pwyllgor yn bresennol yng ngŵydd y Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol. Yn y cyfarfod hefyd, roedd cynrychiolydd o Grŵp Hay, a gomisiynwyd gan swyddogion i ymgynghori a rhoi gwybodaeth feincnodi am gyflogau uwch reolwyr er mwyn llywio adroddiad ac argymhellion y Prif Weithredwr. Ni nodwyd y ffaith bod cynrychiolydd Grŵp Hay yn bresennol yng nghofnodion y cyfarfod.

**18.** Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, gofynnwyd i'r Cyngor dderbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 5 Medi 2012.

**19.** Ni ddarparwyd copi o'r Adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor gyda'r cofnodion. O ganlyniad, nid oedd y wybodaeth am y newidiadau i'r strwythur cyflogau a graddio ar gyfer prif swyddogion a ystyriwyd ac y cytunwyd arni gan y Pwyllgor ar gael i'w hystyried gan y Cyngor. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Mehefin 2012, sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff gyda phwerau dirprwyedig llawn i ystyried y trefniadau cyflog a chydnabyddiaeth ar gyfer uwch reolwyr a'u cymeradwyo. Felly, ar 9 Hydref 2012, nid oedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor, dim ond ei nodi. Deallwn hefyd fod papurau'r Pwyllgor ar gael i aelodau ar fewnrwyd y Cyngor y diwrnod ar ôl cyfarfod y Pwyllgor.

**20.** O ganlyniad, ac mewn ymateb i bryderon a godwyd gan aelodau a staff y Cyngor, yn ogystal ag etholwyr, gofynnodd y Cyngor am gyngor cyfreithiol allanol mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor a'r broses a ddilynwyd.

**21.** Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor gofynnwyd am gyfarfod arbennig o'r Cyngor gan bump aelod. Roedd y cais am gyfarfod fel a ganlyn 'rydym ni, y sawl sydd wedi llofnodi isod, drwy hyn yn gofyn i'r Maer gynnull Cyfarfod Arbennig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel mater o frys er mwyn i bob cynghorydd allu trafod yn briodol pa un a ddylid diddymu codiadau cyflog i uwch aelodau o staff, ar ôl cyflwyno adroddiad llawn ar y mater'.

**22.** Cyflwynwyd y cyngor cyfreithiol y cyfeirir ato uchod i'r Cyngor yn ei gyfarfod arbennig ar 17 Ionawr 2013, ynghyd ag adroddiad gan y Prif Weithredwr, yn crynhoi'r cyngor cyfreithiol ac yn cyflwyno'r opsiynau a oedd ar gael i'r Cyngor. Er mai'r Prif Weithredwr oedd awdur yr adroddiad hwn, nododd yr adroddiad er mwyn osgoi unrhyw achos o wrthdaro buddiannau, y byddai'r Prif Weithredwr yn esgusodi ei hun o'r cyfarfod tra y câi ei gydnabyddiaeth ef ei ystyried, a dyma a wnaeth.

**23.** Roedd yr opsiynau i'w hystyried gan y Cyngor yn ei Gyfarfod Arbennig fel a ganlyn:

**a)** Diddymu'r penderfyniad a dychwelyd yr uwch swyddogion i'r hen raddfeydd cyflog. Câi'r swyddogion eu diogelu am 18 mis ar y telerau a'r amodau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff.

**b)** Diddymu'r penderfyniad, diswyddo'r swyddogion a chynnig eu hailbenodi yn unol â'u telerau a'u hamodau blaenorol.

**c)** Gwneud penderfyniad o'r newydd ond cadarnhau y caiff y telerau a'r amodau presennol eu cadw yn unol â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 5 Medi 2012.

**ch)** Gwneud penderfyniad o'r newydd ond cadarnhau y caiff strwythur cyflogau uwch swyddogion ei gadw yn unol â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 5 Medi 2012, ond gyda phenderfyniad gwahanol o ran y strategaeth cyflogau. Gweithredu unrhyw newidiadau i'r telerau a'r amodau naill ai drwy gytuno arnynt gydag uwch swyddogion, neu drwy ddiswyddo ac ailbenodi yn unol â thelerau ac amodau newydd.

**d)** Diddymu'r penderfyniad drwy gyfrwng cyfaddawd wedi'i negodi gyda'r Grŵp Uwch Swyddogion.

**24.** Y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor oedd (d), sef diddymu'r penderfyniad drwy gyfrwng cyfaddawd wedi'i negodi gyda'r Grŵp Uwch Swyddogion. O ganlyniad, gostyngwyd y lefelau cyflog a ddyfarnwyd o gymharu â phenderfyniad y Pwyllgor. Nodwyd yng nghyfarfod y Cyngor y byddai'r penderfyniad yn arbed £418,000 dros gyfnod o bedair blynedd. Er na nodwyd hynny yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor ar 17 Ionawr 2013, mae'r Swyddog Monitro wedi fy hysbysu ers hynny y bydd y gostyngiad yn weithredol o 1 Ebrill 2013.

## Roedd y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff yn anghyfreithlon

**25.** Nid hysbysebwyd cyfarfod y Pwyllgor yn briodol yn unol ag Adrannau 100A, 100B a 100E o Ddeddf 1972. Mae Adran 100A o Ddeddf 1972 (fel y'i cymhwysir i bwyllgorau gan Adran 100E o Ddeddf 1972) yn ei gwneud yn ofynnol i amser a lleoliad cyfarfodydd pwyllgorau gael eu hysbysebu'n gyhoeddus. Ni wnaed hyn, yn groes i Adran 100A.

**26.** Mae Adran 100B o Ddeddf 1972 (fel y'i cymhwysir gan Adran 100E o Ddeddf 1972) yn ei gwneud yn ofynnol:

- sicrhau bod agenda ac adroddiadau'r cyfarfod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod;
- y gellir cadw adroddiadau yn ôl os bydd y swyddog priodol (y Swyddog Monitro fel arfer) o'r farn na fyddai ystyried yr eitem o fudd i'r cyhoedd.

**27.** Nid oedd Agenda'r cyfarfod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, yn groes i Adran 100B o Ddeddf 1972.

**28.** Deuthum i'r casgliad fod y diffyg hysbysebu yn golygu bod penderfyniad y Pwyllgor yn anghyfreithlon.

**29.** Mae swyddogion y Cyngor wedi ein hysbysu mai gwall dynol oedd yn gyfrifol am y ffaith nad hysbysebwyd y cyfarfod. O'n cyfweliadau gyda staff, nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw beth ond gwall yn gyfrifol am y ffaith nad hysbysebwyd y cyfarfod.

**30.** Roedd rhai swyddogion penodol y byddai'r penderfyniad o fudd iddynt yn bresennol drwy gydol cyfarfod y Pwyllgor ar 5 Medi 2012, ac ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Yn ogystal, y Prif Weithredwr oedd awdur yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Ni chaiff unigolyn gymryd rhan mewn proses gwneud penderfyniadau os oes posibilrwydd gwirioneddol y byddai buddiant ariannol neu bersonol yng nghanlyniad y penderfyniad yn dylanwadu arno, fel y sefydlwyd gan gyfraith achos. Rhaid datgan unrhyw fuddiant o'r fath. Ni chaiff unigolion â buddiant o'r fath gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau onid yw'r buddiant yn rhy amherthnasol neu anarwyddocaol i fod yn bwysig. Fel y cyfryw, byddem wedi disgwyl y canlynol:

- y byddai swyddogion wedi datgan buddiant yn y trafodion;
- y byddai swyddogion wedi gadael y cyfarfod pan oedd aelodau'r Pwyllgor yn trafod argymhellion adroddiad y Prif Weithredwr ac yn gwneud eu penderfyniad;
- y byddai aelodau'r Pwyllgor wedi cymeradwyo'r cylch gwaith ar gyfer y cyngor annibynnol a gomisiynwyd ar gydnabyddiaeth (o leiaf o ran cyflog y Prif Weithredwr).

**31.** Roedd nifer o ystyriaethau yn adroddiad Hay na chyfeiriwyd atynt yn adroddiad y Prif Weithredwr, ac nad oes unrhyw nodiadau yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor i ddangos iddynt gael eu trafod. Ymhlith y rhain mae:

- opsiynau ar gyfer cyflwyno dyfarniadau neu daliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn raddol;
- yr angen i'r Cyngor ddeall yr elw ar ei fuddsoddiad mewn perthynas ag unrhyw strwythur cyflogau newydd;
- yr angen i ystyried amcanion strategol y Cyngor mewn perthynas â chyflogau er mwyn llywio'r camau a gymerir mewn perthynas â graddfeydd cyflog, er enghraifft, yr opsiwn i wneud dim byd, i dalu cyflogau cystadleuol, i dalu er mwyn denu'r staff gorau ac i ystyried cyfleoedd i ddatblygu systemau cyflog yn seiliedig ar berfformiad.

**32.** Mae cyfweliadau ag aelodau o'r Pwyllgor yn cadarnhau mai prin y trafodwyd y pwyntiau hyn. Yn hytrach, canolbwyntiwyd ar argymhellion adroddiad y Prif Weithredwr. Ymddengys y bu rhyw drafodaeth gryno o ran cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad, a ddiystyrwyd fel opsiwn. Cadarnhaodd o leiaf un aelod o'r Pwyllgor mai ffocws y drafodaeth oedd cadarnhau bod problem gyda chyflogau'r prif swyddogion a bod angen ymdrin â'r broblem honno, yn hytrach na'r ffordd orau o ymdrin â'r broblem honno. Fel rhan o'r cyfarfod, byddem wedi disgwyl i bob un o'r pwyntiau a godwyd gan Hay yn ei adroddiad gael eu hystyried yn benodol, gan fod y pwyntiau hynny yn berthnasol i'r ffordd y gellid datrys y broblem gyda chyflogau'r prif swyddogion.

**33.** Derbyniaf mai aelodau'r Pwyllgor a wnaeth y penderfyniad yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'n peri pryder i mi bod y swyddogion wedi bod yn bresennol drwy gydol y cyfarfod, na wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant ac, yn ôl pob golwg, nad ystyriwyd yr opsiynau yn adroddiad Hay. Yn fy marn i, mae'r ffaith bod y swyddogion hyn yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau yn golygu bod penderfyniad y Pwyllgor yn ultra vires ac felly'n anghyfreithlon, ar y sail bellach hon.

## Ceir gwendidau yng ngweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor

**34.** Ni waeth beth yw'r sefyllfa gyfreithiol, mae'r pryderon a amlinellwyd gennyf uchod yn bwysig o safbwynt llywodraethu ac yn dangos methiant o ran trefniadau llywodraethu da ar ran y Cyngor.

**35.** Yn ogystal â'r gwendidau a nodwyd uchod, mae meysydd eraill yn peri pryder i mi o safbwynt llywodraethu. Mae a wnelo'r pryderon hyn â'r gweithdrefnau ar gyfer cyfarfod cyntaf pwyllgor newydd, eglurder yr adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor a chofnodion cyfarfod y pwyllgor.

## Dylai'r gweithdrefnau ar gyfer cyfarfod cyntaf pwyllgor newydd fod wedi bod yn gadarnach

**36.** Mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oedd unrhyw gylch gorchwyl ffurfiol yn bodoli ar gyfer y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Staff. Byddai cylch gorchwyl wedi darparu mwy o arweiniad o ran:

- cyfrifoldebau dros roi adolygiadau cydnabyddiaeth ar waith;
- unrhyw ofyniad ar gyfer comisiynu cyngor annibynnol a phwy ddylai wneud hyn;
- priod rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion.

**37.** Deallwn fod aelodau'r Pwyllgor oll yn aelodau profiadol (gan gynnwys aelod blaenorol ac aelod cyfredol o'r Cabinet â chyfrifoldebau Adnoddau Dynol). Er bod hyn yn golygu bod arbenigedd o ran materion Adnoddau Dynol, nid ymddengys fod yr aelodau wedi cael unrhyw hyfforddiant sefydlu o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau ar y Pwyllgor nac o ran diben a phwerau'r Pwyllgor ei hun. Mewn cyfarfod cychwynnol, a oedd yn ymdrin â mater mor sensitif, byddem wedi disgwyl sesiwn gychwynnol yn nodi rolau, pwerau a chyfrifoldebau'r aelodau. Byddem hefyd wedi disgwyl mai un o'r eitemau cyntaf a gâi ei hystyried fyddai cylch gorchwyl y Pwyllgor.

**38.** Deallwn fod y Cyngor wedi penodi Grŵp Hay yn 2004 fel ei arbenigwyr annibynnol wrth gefn ar gyflog uwch staff. Ar gyfer yr ymarfer penodol i roi cyngor ar gydnabyddiaeth y prif swyddogion, comisiynwyd Grŵp Hay gan swyddogion. Roedd cynrychiolydd o Grŵp Hay hefyd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor. Ni chwaraeodd aelodau'r Pwyllgor unrhyw ran yn y broses o gaffael y cyngor annibynnol hwn, er enghraifft, wrth bennu'r cylch gorchwyl ar gyfer y cyngor, ac ni wnaethant ystyried y cyngor heb fod y swyddogion yn bresennol. Byddem yn disgwyl i bwyllgor o'r fath chwarae rhan yn y broses o gomisiynu cyngor annibynnol o'r fath yn uniongyrchol, o leiaf mewn perthynas â chyflog y Prif Weithredwr, er enghraifft drwy gymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad i'w gynnal er mwyn rhoi'r cyngor. Gan nad oedd cylch gorchwyl ar gael i'r Pwyllgor, ni fyddai unrhyw ganllawiau wedi bod ar gael i'r aelodau o ran eu priod rolau a chyfrifoldebau hwy a swyddogion wrth gomisiynu cyngor o'r fath.

## Nid oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ddigon eglur mewn mannau

**39.** Er i'r rhan fwyaf o aelodau ddatgan mewn cyfweliadau eu bod yn ymwybodol o'r pwyntiau cyflog y câi'r swyddogion eu talu arnynt o ganlyniad i roi argymhellion adroddiad y Prif Weithredwr ar waith, nid adroddwyd ar hyn yn y cyfarfod, ac nis trafodwyd. Nododd o leiaf un aelod nad oedd yn ymwybodol o'r ffordd y byddai'r bandiau blaenorol ar gyfer swyddogion yn 'mapio' i'r bandiau arfaethedig ac felly'r goblygiadau ar gyfer cyflogau. Dylid bod wedi cyflwyno goblygiadau'r strwythur bandio arfaethedig ar gyfer cyflogau unigol yn glir yn adroddiad y Prif Weithredwr a dylai'r Pwyllgor fod wedi trafod y pwynt hwn.

## Roedd cofnodion y cyfarfod yn annigonol

**40.** Mae cofnodion y cyfarfod yn gryno iawn ac felly nid oes unrhyw gofnod digonol o'r drafodaeth a gynhaliwyd. Er ein bod yn deall bod angen golygu trafodaethau i raddau o ystyried natur eithriedig yr adroddiadau, mae'n golygu nad oes modd datrys rhai anghysondebau o ran yr hyn roedd unigolion yn ei gofio am y cyfarfod. At hynny, roedd o leiaf un anghywirdeb yn y cofnodion:

- Nid yw'r cofnodion yn datgelu'r ffaith bod cynrychiolydd o Grŵp Hay yn bresennol yn y cyfarfod. Deallwn fod yr aelodau wedi gofyn llawer o gwestiynau i'r cynrychiolydd hwn a'i fod wedi'u hateb, felly nid hepgoriad dibwys mohono.
- Nid yw'r cofnodion yn nodi p'un a oedd cymeradwyaeth yr aelodau yn unfrydol. Mae un aelod yn honni na bleidleisiodd o blaid y cynigion, honiad a gaiff ei wrthod gan bob un arall a oedd yn bresennol. Deallwn fod mater wedi'i godi gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r ffordd y pleidleisiodd yr aelodau.
- Mae un cynghorydd yn honni i'r swyddogion adael y cyfarfod tra cafodd yr argymhelliad ei drafod gan yr aelodau ac y gwnaed penderfyniad. Nid ategir y fersiwn hwn o ddigwyddiadau gan gyfweliadau â phob un arall a oedd yn bresennol.

**41.** Byddem wedi disgwyl i'r cofnodion ddarparu cofnod cywir o'r cyfarfod ac ar gyfer mater sensitif o'r fath, byddem wedi disgwyl iddynt nodi pa un a oedd y bleidlais yn unfrydol ai peidio.

# Y camau nesaf

**42.** Mae bellach yn ofynnol i'r Cyngor, yn ôl Adran 25 o Ddeddf 2004 ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- pa un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- pa un a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad;
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

## Diolchiadau

**43.** Hoffwn ddiolch i swyddogion ac aelodau'r Cyngor am eu cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.



Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig

06 Mawrth 2013

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk